**SYLWADAU'R AELOD LLEOL ADRODDIAD CABINET 11 CHWEFROR, FELINWNDA**

Hoffwn ddiolch i'r tîm moderneiddio addysg am eu gwaith cynhwysfawr ar y mater yma.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r argymhelliad i'r Cabinet, sef trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i Ysgol Bontnewydd.

Fodd bynnag, anghytunaf efo'r argymhelliad. Yn fy marn i Opsiwn 1, sef trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i Ysgol Llandwrog fyddai'r dewis mwyaf synhwyrol. Er yn deall nad refferendwm ydy ymgynghoriad, mae'n deg nodi mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn gafodd ei ffafrio gan fwyafrif yr ymatebwyr.

Yn ogystal byddai Opsiwn 1:

- Yn cyfrannu at warchod a chryfhau Ysgol Llandwrog, heb unrhyw anfantais i Ysgol Bontnewydd.
- Mae cysylltiad cryf wedi bodoli dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog
- Yn sicrhau parhad yn y cysylltiad â'r dilyniant naturiol rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog
- Yn dod â dau ddalgylch tebyg ynghyd. Mae dalgylch presennol Ysgol Felinwnda yn un gwledig sy'n ymdebygu efo naws a natur Ysgol Llandwrog.
- Yn cyfrannu orau at gynaliadwyedd y gymuned leol

Rwyf felly o'r farn fod yna resymau teilwng dros ddewis Opsiwn 1 na ddylid eu hanwybyddu.

Nodaf fod Opsiwn 1 yn rhagweld costau teithio uwch nag Opsiwn 2. Nid wyf yn deall pam fod costau teithio Opsiwn 1 yn cynnwys darpariaeth tacsi oherwydd lonydd cul, ond nad yw costau teithio Opsiwn 2 yn cynnwys y gost yma.

Credaf ei bod hi'n bwysig ystyried na fydd y gwir gostau teithio yn wybyddus tan fod y trefniadau hynny mewn lle, a byddant yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn wrth i leoliad dysgwyr newid.

Beth bynnag fydd y gwir gostau teithio, o ystyried popeth yn ei gyfanrwydd, ansylweddol fydd unrhyw gostau teithio ychwanegol Opsiwn 1. £23,000 y flwyddyn fyddai'r gwahaniaeth yn ôl Cyngor Gwynedd. Swm cymharol ansylweddol wrth ystyried costau addysg yn gyffredinol, a swm bychan os am flaenoriaethu cymunedau gwledig cynaliadwy yng Ngwynedd.

Gobeithiaf nad yw'r gwahaniaeth cymharol fychan posibl yn y costau teithio wedi dylanwadu'n ormodol ar y penderfyniad i ffafrio Opsiwn 2.

Nodaf hefyd sylwadau Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda oedd yn ffafrio Opsiwn 1, gan fod gan y Cylch bryder na fyddai Opsiwn 2 yn sicrhau hyfywdra'r Cylch oherwydd bod Cylch Meithrin eisoes yn bodoli ar safle Ysgol Bontnewydd.

Byddai unrhyw effaith negyddol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn niweidio'r gymuned a'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn lleol.
Opsiwn 1 fyddai'r opsiwn fyddai'n diogelu Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda orau, a hefyd Canolfan Bro Llanwnda sydd drws nesaf.

Felly, am y rhesymau uchod gofynnaf i'r Cabinet ailystyried yr argymhelliad a dewis opsiwn 1, sef trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i Ysgol Llandwrog.

Huw Rowlands

30 Ionawr 2024